**Tasg 1**

# Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol

1. Beth yw'r darn ar y brif sgrîn?
   - ☐ a. neges e-bost
   - ☐ b. darn ar wefan
   - ☐ c. llythyr

2. Mae'r darn yn sôn am ddigwyddiad:
   - ☐ a. yng Nghymru yn unig
   - ☐ b. mewn ysgolion yn bennaf
   - ☐ c. ar draws y byd

3. Ers pryd mae'r Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol yn digwydd?
   - ☐ a. ers dwy flynedd
   - ☐ b. ers tair blynedd
   - ☐ c. ers mwy na thair blynedd

4. Pam mae'n cael ei drefnu?
   - ☐ a. er mwyn gwneud i bobl deimlo'n well
   - ☐ b. er mwyn gwneud i bobl ruthro o gwmpas
   - ☐ c. er mwyn gwneud i bobl weithio'n galetach

5. Yn ôl y darn, pa un o'r brawddegau hyn sy'n gywir?
   - ☐ a. Os ydych chi'n gwneud rhywun yn hapus, rydych chi'n teimlo'n llai hapus fel arfer
   - ☐ b. Os ydych chi'n gwneud rhywun yn hapus, byddan nhw'n ddiolchgar iawn
   - ☐ c. Os ydych chi'n gwneud rhywun yn hapus, byddwch chi'n teimlo'n hapusach

6. Heb edrych, ydych chi'n gallu cofio'r syniadau ynglŷn â sut i ddathlu Dydd Hapusrwydd Rhyngwladol?
   Rhestrwch nhw ar ddarn o bapur.

   Yna, ewch yn ôl i'r darn i wirio'ch syniadau chi.

7. Beth yw agwedd yr awdur at Ddydd Hapusrwydd Rhyngwladol?

   Rhowch reswm dros eich ateb.

8. Sylwch ar y frawddeg yma:

   **Ysbrydolwch rywun.**

   Ysgrifennwch y geiriau mewn cromfachau'n gywir yn y bylchau.

| | | |
|---|---|---|
| a. | Dywedwch .................. caredig wrth rywun. | (gair) |
| b. | Ysgrifennwch .................. at ffrind. | (llythyr) |
| c. | Gwnewch .................. i ddathlu. | (cacen) |
| ch. | Trefnwch .................. yn yr ysgol. | (digwyddiad) |
| d. | Cyfansoddwch .................. hapus. | (cân) |